Cydymdeimlwn fel ysgol â Mr a Mrs D Huws a'r teulu, Tyddyn Seilo ar y brofedigaeth lem a ddaeth i'w rhan yn ddiweddar. Hefyd Mr Daylak a'r plant wrth golli gwraig a mam annwyl. Rydym oll yn meddwl amdanoch.

Yn absenoldeb Mrs E Scurlock, ein cogyddes, cymerir at y gwaith gan ei chynorthwywraig, Mrs Prysorwen Davies a mawr yw ein diolch iddi. Croesawn Mrs Kay Evans Ger-y-llan atom fel cynorthwywraig dros dro.

Mae plant dosbarth Mrs Evans yn cael ymweliad wythnosol gan ddwy wraig o'r Adran Ddeintyddol yn Aberystwyth y tymor hwn. Dônt i ddysgu'r plant am y pwysigrwydd o ofalu am eu dannedd yn y ffordd orau posib. Caiff y plant fwynhad mawr o'r ymweliadau a thrwy gyfrwng stori, pypedau a chywaith dônt yn ymwybodol o'r gofynion sy'n hanfodol i sicrhau dannedd iach.

Cynhelir ein cyfarfod diolchgarwch ar 19 Hydref ac mae'r plant wrthi'n brysur yn paratoi. Edrychwn ymlaen at gael ail-gydio yng ngweithgar-eddau'r Urdd ar y nos Lun cyntaf wedi hanner tymor.